OFFERYNNAU STATUDOL

CYMRU

# 2011 Rhif 1513 (Cy. 177)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyfnewidfa Rhiwabon (Cyffordd 1), i Gyfnewidfa Gresffordd (Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *16 Mehefin 2011*

*Yn dod i rym* *1 Gorffennaf 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A483 Abertawe - Manceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Gan hynny, mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Gorffennaf 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyfnewidfa Rhiwabon (Cyffordd 1), i Gyfnewidfa Gresffordd (Cyffordd 6), Wrecsam) (Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *(" the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â'r A539 wrth Gyfnewidfa Rhiwabon (Cyffordd 1), i ganolbwynt Cyfnewidfa Gresffordd (Cyffordd 6), ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam;

ystyr "cyfnod y cyfyngiad" *("restricted period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 1 Gorffennaf 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n derfynol.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 4, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.** Ni fydd darpariaethau erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad y maent yn cyfeirio ato yn weithredol.

**5.** Bydd y Gorchymyn yn para am ddau fis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 16 Mehefin 2011

***G MORGAN***
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.